
# LLYGAD BARCUD



CYLCHLYTHYR

# CYMDEITHAS TED BREEZE JONES

RHIF 13 – PASG 2008




(Cewch liwio'r llun os dymunwch!)

# PASG HAPUS!

***HEFYD YN Y RHIFYN HWN –***

- AROLWG BLYCHOD ADAR
- Y CROESBIG
- TEITHIAU'R GYMDEITHAS

***A LLAWER, LLAWER MWY!***

## *ER BUDD ADAR A BYD NATUR*

## Golygyddol

**Welwn ni ddim Pasg mor gynnar a hwn eto yn ein bywydau mae'n bur debyg – cyd-ddigwyddiad llwyr oedd bod y lleuad llawn yn disgyn ar ddiwrnod cyhydnos y gwanwyn (yr 21ain o Fawrth), sy'n golygu fod y Sul cyntaf ar ôl y lleuad llawn (hynny ydy, y Sul sydd yn pennu pryd y bydd Sul y Pasg – ydach chi'n dal hefo fi?!) wedi syrthio yn gynnar iawn eleni, yn wir bron mor gynnar ag y gall fod. Fydd o ddim mor gynnar am o leiaf ganrif a hanner eto – felly mae na siawns y cawn rifyn Pasg *Llygad Barcud* allan mewn pryd o hyn ymlaen!**

Wn i ddim os oedd a wnelo'r lleuad a'r peth, ond tywydd go arw gafwyd yng Nghymru dros benwythnos y Pasg – gwynt, eirlaw, cenllysg ac eira – ac os nad oedd hyn fawr o hwyl i ni, wel meddyliwch am yr adar druan oedd wedi manteisio ar y tywydd braf a gawsom ychydig yn gynharach eleni. Os oedd hi'n gyfnod annifyr i ni, yn gyfnod anodd i ffermwyr (neu yn benodol i'r wyn bach oedd yn wynebu tywydd fel hyn yn eu dyddiau cyntaf, yn gwlychu ac yn oeri heb obaith o sychu), wel yn sicr roedd yn ddigon i roi'r farwol i unrhyw syniadau carwriaethol oedd gan y parwyr cynnar! Gwir yr hen air eleni felly: "Os cân yr adar cyn Gwyl Fair (Chwefror 14eg) – byddant yn crïo cyn C'lanmai."

Ac ar hynny dyna edrych dros galendr yr wythnosau a'r misoedd nesaf...hmm, 'dwn 'im amdanoch chi ond mae eleni eisoes yn edrych yn brysur yn barod rhwng yr holl arolygon sy'n cael eu trefnu! Wrth gwrs, mae gwaith y Gymdeithas i gynorthwyo gyda'r Atlas adar eisoes wedi dechrau (cawsom ambell i gofnod difyr iawn i'w hychwanegu at restr y sgwariau y mae'r Gymdeithas wedi ymweld â hwy hyd yma) – a bydd y gwaith yn parhau dros y misoedd nesaf. Cofiwch bod croeso i bawb ar y teithiau hyn – ac os oes gennych syniadau am deithiau eraill – yn unrhyw ardal o Gymru – byddwn yn falch iawn o glywed gennych.

Ac felly dyma ni – mwynhewch rifyn y Pasg – bydd y rhifyn nesaf allan ym mis Awst. Yn y cyfamser, os byddwch yn mynd ar wyliau diddorol yr haf 'ma, beth am gofnodi pa adar a welwch - a sgwennu rhyw bwt bach i *Llygad Barcud* tra rydych wrthi?!

*****NEWYDDION BRYS!!!*****

**Wrth gwrs roedd y ffaith i'r rhifyn yma o Llygad Barcud eich cyrraedd ar ôl Pasg yn gwbl fwriadol, a hynny er mwyn dod a'r newyddion ichi bod y gweilch eisoes wedi cyrraedd yn ôl i ardal afon Glaslyn, y ceiliog ar ddydd Mercher y 26ain o Fawrth am 1pm (o fewn awr i'r amser y cyrhaeddodd y llynedd!) a'r iâr erbyn y bore canlynol.**

**Rydym yn awr yn edrych ymlaen yn eiddgar i weld os daw unrhyw un o gywion cyntaf Cymru yn ôl i'w hardal enedigol (ynteu 'ddeorigol'?!) Croeswn ein bysedd! Cawn adroddiad llawnach yn rhifyn yr Haf.**

O.N. – Bydd gwobr am yr ymgais orau i liwio'r llun ar y clawr!

# Ymchwil Blychod Nythu, 2000 – 2007

## Bryan Jones, Llangamarch

**Am fwy na hanner canrif bellach rwy'i wedi bod â diddordeb mewn adarydda a cherdded ac yn y cyfnod hwnnw fe glywais lawer i beth yn cael eu ddweud gan rai a oeddent ar y pryd, i mi, yn 'wybodysion' yn eu maes.**

**Ond dros y blynyddoedd rwy'i wedi dysgu taw edrych, gwrando a dadansoddi natur fy hun yw y ffordd orau. Ac ar ôl clywed un 'expert' yn dweud wrth grwp o'r Amerig yr oeddwn yn eu tywys drwy y Canolbarth unwaith, bod rhaid i flychod adar o hyd fod allan o gyfeiriad y gwynt arferol, meddyliais am y blychod oedd allan gennym adre. Na, 'doeddwn i ddim yn hollol barod i dderbyn y 'ffaith' hon! Ond er mwyn cael atebion gweddol gywir ar y pwynt arbennig hwn byddai'n rhaid gwneud ymchwil i'r mater...**

Cefais y siawns a'r amser i ddechrau arbrawf fach fy hun yn 2001.'Roeddwn wedi symud i fwthyn allan yn ganol y wlad, wedi ei amgylchynu â choed, perthi a dyffryn serth yn llawn coed coll-ddail yn rhedeg i fyny am yr Epynt.

Y ddau gwestiwn gwreiddiol 'roeddwn am eu hateb oedd:

- A oedd cyfeiriad y blwch gyda'r cwmpawd yn gwneud gwahaniaeth?
- A oedd gwahanol rywogaethau yn hoffi blwch oedd yn wynebu un ffordd yn fwy nac un arall?

Aethpwyd ati yng ngaeaf 2000/2001 i adeiladu a chodi ugain o flychod allan yn y dyffryn ac ar goed allan yn yr agored. Pôb pump blwch yn gwynebu at bedwar pwynt y cwmpawd. Gosodwyd y blychod ar goed Onnen, Derw, Bedwen, a Draenen Wen. 'Roedd pôb blwch yn 3m. o'r llawr. Ar gyfartaledd 'roedd y blychod rhwng 290m a 310m uwchben y môr, a'r gwynt arferol yma ydi De/Gorllewin.

Wrth gwrs yn 2001 fe ddaeth y Clwy Traed a Genau a bu cyfyngu ar bôb ymchwil arall y flwyddyn honno, ond bu'm yn lwcus gan nad oedd defaid yn y caeau yma ar y pryd ac ni fuont am yr wyth mis canlynol.

Felly, am 2001 a 2002 cedwais at yr ugain blwch. Fel y dengys Tabl 1, dim ond deg gafodd eu defnyddio y flwyddyn gynta'. Teimlwn fod hyn yn weddol lewyrchus. Yn 2002 fe gododd y nifer i bymtheg, ac yr oedd y blychod wedi symud un pwynt rownd y cwmpawd.

Yn 2003 penderfynais ehangu'r ymchwil a gosod deg blwch arall mewn coedlan tua milltir i ffwrdd a oedd ar uchder o 250m ac yn gymysgedd o Dderw, Onnen, Cyll, a Gwern [Gelwais hon yn C2 â'r goedlan gynta yn C1]. 'Roeddwn yn awyddus i ddenu'r gwybedog brith a'r tingoch i'r blychod, ac i weld a oedd uchder y tîr yn gwneud gwahaniaeth.

Erbyn 2003 roedd deunaw (18) blwch yn C1 ac wyth yn C2 a nyth ynddynt, ac erbyn 2004 'roedd yr ugain mewn defnydd yn C1 a deg yn C2. 'Roedd blychod C1 wedi bod rownd y cwmpawd, ac fel y gwelwch 'doedd braidd dim gwahaniaeth yn y niferoedd o flychod a ddefnyddwyd. Ac erbyn 2006 pan ddaeth yr arbrawf i ben yn C2 bu'r canlyniad yn bur debyg.

Dim ond un blwch yn C1 oedd heb ei ddefnyddio o gwbwl - B18. 'Roedd hwn mewn Draenen Wen, ac yn 2004 fe'i symudais i Onnen tua 3m. i ffwrdd, ac aeth Titw Glas iddo yn syth. Yn 2005 symudais y blwch yn ôl i'r Ddraenen ac nid oes defnydd wedi bod ohono byth wedyn.

Gaeaf 2006/07, sefydlwyd ugain o flychod eraill mewn coedwig fach arall gerllaw (C3). Mae hon ar uchder o 200m. ac eto yn gymysgedd o Dderw, Onnen a Gwern. Hefyd dros y gaea' symudwyd pob blwch yn is ar y goeden, er mwyn hwyluso'r gwaith ac arbed cario ysgol pob tro.

Rwy'n cynorthwyo fy nghyfaill i fodrwyo cant a hanner o flychod yn ardal Tregaron a Nant yr Arian, maent oll tua pum troedfedd o'r llawr ac nid oes dim problemau yna, felly penderfynais innau wneud yr un peth. Rhaid sylweddoli fod y safleoedd hyn i gyd mewn llefydd unig, ac nid yw'r cyhoedd yn medru cerdded yma, ac amharu arnynt.

Canlyniadau.

A ydw'i wedi cael atebion i'm cwestiynau gwreiddiol? I'r un cyntaf, rwy'i ddim yn hollol siwr. Mae yn debygol nad yw y cyfeiriad yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r titw glas nac i'r titw mawr. Mae pob blwch ond (C1-B18) wedi cael eu ddefnyddio yn reolaidd. Efallai nad oes digon o adar ar adegau i fynychu pob un, ac nid yw pob blwch felly wedi bod yn llwyddianus o flwyddyn i flwyddyn.

Mae y gnocell fraith fwyaf wedi gwneud difrod sawl blwyddyn. Ond er 2004 rwy'i wedi cylchyu tair ochr o'r blychod gyda 'weiar mesh' ac mae hynny wedi rhoi taw arnynt.

Ac am yr ail gwestiwn, ers 2004 mae dau bâr o deloriaid y cnau wedi nythu yn yr un blychod bob blwyddyn, ac mae y ddau flwch yn cyfeirio i'r Gogledd (C1).

Hefyd yn C1, C2 ac C3, mae pob blwch sydd â gwybedog brith ynddo yn edrych i'r Gogledd. Nid oes gwahaniaeth os ydi'r blwch yng nghanol coedwig, ar goeden mewn clawdd, neu allan yn yr agored.

Mae un blwch penodol (B17) allan ar goeden Onnen ar ei phen ei hun yng nghanol cae, ac mae naill ai gwybedog brith neu dingoch wedi bod ynddo bob blwyddyn.

Mae niferoedd y gwybedog brith i fyny o un yn 2001, hyd at saith yn 2007 yn C1 tra yn C2 mae yn mynychu pump blwch allan o ddeg bob blwyddyn. Mae niferoedd y tingoch yn llawer mwy bregus yn yr ardal hon na'r gwybedog.

Mor belled a newid uchder y blychod, hon ydi'r flwyddyn gyntaf, ac ar hyn o bryd nid ydyw wedi gwneud gwahaniaeth. Ond bydd rhaid sefyll tair/pedair blynedd cyn cael ateb defnyddiol.

Peth arall sydd wedi dod allan o'r ymchwil ydi, gan fy mod yn nodi yn gyson pwy adar sydd yn clwydo yn y blychod dros y Gaeaf, ei bod yn amlwg mai yn y blychod sydd agosaf at yr ardd, lle mae gorsaf fwydo, y maent yn clwydo. Bydd titw glas a thitw mawr yn y mwyafrif ac mae hyd at deuddeg dryw wedi bod yn un. Mae'r niferoedd yn newid gyda'r tymheredd.

Yn aml tua dechrau mis Mawrth, dim ond un aderyn sy'n clwydo mewn blwch, naill ai y titw glas neu'r un mawr. Yn ddieithriad y rhain sydd yn adeiladu eu nyth yn y blwch hwnnw. A ydynt yn hawlio y blwch gorau yn eu tyb nhw yn gynnar yn y tymor?. Hefyd rydw'i yn dechrau gweld patrwm bod wyau yn cael eu dodwy tua dau/dri diwrnod yn gynharach yn y blychod agosaf at yr ardd. Dyma sail efallai i ymchwil pellach yn y dyfodol.

## Tabl 1:
## Defnydd y blychod yn C1.

| | TiTw Glas | Titw Mawr | Gwybedog Brith | Tingoch | Delor y Cnau |
|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd | 14 | 2 | 29 | 2 | 5 |
| De | 21 | 8 | | 1 | 1 |
| Dwyrain | 11 | 2 | | 3 | |
| Gorllewin | 12 | 4 | | 5 | |

## Tabl 2:
## Effaith cyfeiriad y blychod ar yr adar a'u ddefnyddiodd.

| Blwyddyn | 2001 | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer Blychod | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 |
| Gogledd | 5(1) | 5 | 5(3) | 5 | 5 | 5 | 5 |
| De | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 |
| Dwyrain | 5(3) | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 |
| Gorllewin | 5(1) | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 |
| Blychod wedi Defnyddio | 10 | 15 | 18 | 20 | 19 | 19 | 19 |
| Titw Las | 7 | 8 | 14 | 12 | 7 | 8 | 2 |
| Titw Mawr | 1 | 2 | | 1 | 5 | 3 | 4 |
| Gwibedog Brith | 1 | 5 | 3 | 5 | 6 | 2 | 7 |
| Tingoch | 1 | | 1 | 2 | | 3 | 4 |
| Delor y Cnau | | | | | 1 | 3 | 2 |



Llun o bluebirder.blogspot.com

# "Os 'tisho mynd i Vilamaura..." (2)

Twm Elias

**[Ail ran yr erthygl am wyliau yn ne Portiwgal. Roedd y rhan gynta yn *Llygad Barcud* 12]**

**Parc Ambiental de Vilamaura**
Yn ymestyn am bellter o tua 6 milltir i'r dwyrain o farina fawr Vilamaura mae 'na strimyn hir o welyau cyrs trwchus a thir amaethyddol sydd wedi ei ddynodi yn barc amgylcheddol llawn amrywiaeth (*Parc Ambientale Vilamaura*). Dwi wedi cael pleser mawr yn crwydro hwn, er ei fod yn golygu teithiau hir mewn gwres llethol, gan ddilyn fy nhrwyn a mynd ar goll sawl gwaith am nad oes ffiniau amlwg na map call o'r lle ar gael.



Y porth i'r warchodfa

Yn cychwyn ar gyrion Vilamaura mae'r gwely cyrs yn anferth – anferth o ran ei arwynebedd a hefyd o ran taldra'r cyrs eu hunain. Y gorsen fawr (*Arundo donax*) geir yma, sy' fel bambw ac yn sefyll 10 – 15 troedfedd ar dir agored a hyd at 20 troedfedd os ydynt ger ddwr. Peidiwch a mynd ar goll yn y rhain be bynnag wnewch chi, neu yno fyddwch chi am ddyddiau! Mae'n lle da iawn am delor y cyrs (*Acrocephalus scirpaceus*), fel yr un gawn ni adra, a hefyd y telor-y-cyrs mawr (*A. arundinaceus*) sy'n fwy o faint, hefo pig cryfach ac yn llawer mwy swnllyd! Fe gefais olwg dda yno hefyd a iâr bod y gwerni ddiwedd Awst 2005.

Ar hyd ymyl deheuol y gwely cyrs mae morglawdd pridd cyfleus iawn yn ffinio sianel hir a syth yr afon cyn iddi wagio i'r harbwr. Mae llwybr pridd ar ei ben o sy'n ddigon uchel ichi fedru gweld dros y cyrs i'r un cyfeiriad a chadw golwg ar y coed helyg gwasgaredig ar ymyl yr afon i'r cyfeiriad arall. Lle da i weld creyrod ac adar y dwr, ynghyd ag adar eraill yn clwydo ar y canghennau – turturod, piod gleision, ambell euryn a heidiau o adar mân fel llinosiaid a chwyrbigau ayyb.



Llun – Jankees Schwiebbe

Telor y cyrs mawr

Yn ffinio ochor ogleddol y gwely cyrs mae ffordd fawr ac o ddilyn ymyl honno am tua milltir fe ddewch at lyn 3 – 4 acer. Wel dyma le da. Gwelais forwennol ddu yno yn 2006, amrywiaeth dda o chwiaid ac adar y dwr, yn cynnwys y gorsiar – sy'n debyg i iâr ddwr anferth hefo pig a choesau cochion – a sawl math o greyr, yn cynnwys y gwyn, glas, porffor ac am y tro cynta i mi yn 2006: aderyn y bwn lleiaf. Dyna ichi beth bach difyr oedd hwnnw – yn camu a chrafangio'n llechwraidd o un corsen i'r llall gan afael am y coesyn, ryw droedfedd neu ddwy uwchben y dwr, gan wyro i lawr bob hyn a hyn i sticio ryw bysgodyn bychan neu lyffant.

**Crwydro'r paith**
Fis Awst 2005 fe benderfynais ymwthio drwy'r cyrs rownd i bendraw'r llyn.

Profiad difyr iawn ac ar ôl cyrraedd dyma gynefin hollol wahanol yn agor allan o'm blaen. Anodd ei weld o'r ffordd fawr ond y tu ôl i len y cyrs roedd tir agored eang a gwastad yn ymestyn am hyd y gwelwn bron a'r cwbwl yn sych grimp a llychlyd. Ymlaen a fi nes cyrraedd llwybr trol a'i ddilyn at gyfres o adeiladau bychan bler gwyngalchog yng nghysgod coed, a phydew dwfn gerllaw, hefo olwyn a bwcedi i godi dwr ohono. Wrth ymyl y pydew roedd 6 bath llawn dwr! Ia, bath fel sy' gennych chi adra. Rhyfedd o fyd, peith-dir sych llychlyd bron at y gorwel (fel Mecsico heb y cactws), a'r 6 bath 'ma?

Sylwi bod baw anifeiliaid – defaid neu eifr – dan draed ymhobman ac yn y pellter colofn dew o lwch yn codi. Codi'r gwydrau a'r cwbwl yn gwneud synnwyr wedyn pan welais mai gyrr fawr o ddefaid oedd yno â bugail yn eu harwain. Ar gyfer dyfrio'r defaid roedd y 6 bath felly!

Dechrau sylwi ar yr adar wedyn – cigydd brych ar wifren drydan a barcud du (iahw!) yn pasio'n hamddenol uwchben. Dilyn y llwybr llychlyd a dwad ar draws heidiau o linosiaid brech, ehedyddion cribog, haid o dinwenod oedd yn amlwg ar eu hymfudiad tua'r de, a chael golwg dda ar siglen felen – peth fach ddigon plaen oedd honno. Yna gweld aderyn prin iawn ar ben polyn i ddechrau ac wedyn yn hedfan. Hwn oedd y barcud ysgwydd ddu sy'n gyfyngedig iawn ei ddosbarthiad i orllewin Sbaen, canolbarth Portiwgal ac ychydig o safleoedd yng ngogledd Affrica. Roeddwn wrth fy modd yn gweld hwnnw.

Ymhen hir a hwyr fe gyrhaeddais at lle roedd y defaid yn pori. Defaid hefo cnu gweddol gyrliog â'u clustiau'n cyfeirio at i lawr, tua 150 ohonynt, oedd y rhain a difyr gweld eu bod yn cael eu bugeilio go iawn. Hynny yw, doedden nhw ddim yn cael eu gadael ar eu pennau eu hunnain ond yn cael eu gyrru, neu eu harwain, yn ara bach o un lle i'r llall gan fugail a'i ddau gi. Pwrpas hynny oedd sicrhau nad oedden nhw'n gor-bori eu cynefin ond yn hytrach yr ei bori'n ysgafn wrth basio, a'r bugail yn gwneud yn siwr eu bod yn defnyddio pob rhan o'r tir yn gytbwys. Rhan o'r drefn oedd dychwelyd gyda'r nos a hefyd am Siesta ganol dydd, pan fyddai'r haul ar ei boethaf, i ddyfrio'r defaid o'r 6 bath a chysgodi dan y coed am ysbaid.

Roedd y defaid yn dilyn eu harweinydd – dafad fawr hefo cloch am ei gwddw – ac wrth iddyn nhw deithio'n hamddenol redden nhw'n 'styrbio pryfed a sboncod gwair. Ac yn barod i fanteisio ar hynny roedd creyrod y gwartheg, tua 20 ohonynt, wedi eu gwasgaru ymysg y praidd. Roedd y rhain yn amlwg yn cael helfa dda wrth gyd gerdded â'r defaid oherwydd roedd eu pigau'n saethu allan i ddal rhyw sboncyn druan bob hyn a hyn. Mae'r creyr y gwartheg yn debyg iawn i'r creyrod gwyn ddaeth mor gyfarwydd inni yng Nghymru yn y 10 mlynedd ddiwethaf ond mae eu pig yn fyrrach ac yn felyn, gyda chyffyrddiad o felyn ar blu'r pen a'r frest a choesau llwyd-felyn. Fe ymgartrefodd un o'r rhain yn Abergwyngregyn ganol gaeaf 1980 ac roedd o i'w weld yno o'r ffordd fawr am ryw ddeufis yn y cae, hefo'r gwartheg.


Defaid yn pori'r sofl

Pan ddychwelais i'r lle yma yn 2006 doedd dim golwg o'r defaid na'r creyrod a'r paith i gyd dan wenith, a rhannau ohonno yn cael ei fedi gan gombein

mawr melyn. Ond wedi sganio'r gorwel gwelais bod y defaid (a'r bathiau) wedi symyd i'r ochr arall i'r afon y flwyddyn honno.

Mae'n amlwg bod cylchdroi cnydau a phori yn digwydd yma ar raddfa go fawr. Ond doedd y system ddim yn ddwys iawn oherwydd roedd clytiau o'r tir gwenith yn llawn chwyn ac felly yn gaffi bendigedig i heidiau enfawr o adar mân – adar to, nicosiaid, llinosiaid, llinosiaid brech a thurturod. Roedd yn ddifyr gweld cymylau o wenoliaid – rhai cyffredin, tingoch, bondo a duon yn dilyn y combein, yn union fel gwylanod yn dilyn yr arad yn Eifionydd. Roedd teuluoedd o betris coesgoch yn y sofl hefyd ac fe glywais y chwiban ddofn ac unigryw honno: "wed, wed-wed", oedd yn tystio fod sofliar yno yn rhywle. [Fe glywais y swn hwnnw ar Forfa Glaslyn, gyda llaw, ar Fehefin 28ain, 2006, yn y cae ger y tro sydyn hanner ffordd rhwng Ty Newydd Morfa a Llanfrothen.]


**Tir cymysg**

Wrth adael y tir amaethyddol agored mae defnydd y tir yn newid i fod yn fwy cymysg. Roedd cwpwl o lynnoedd go sylweddol hefo gwelyau hesg o'u cwmpas a chuddfannau pwrpasol i adarydda. Fe ês draw i fusnesu ond welais i fawr ddim oherwydd bod yr hesg wedi tyfu'n uwch na'r ffenestri – dim ond rhyw ddyrnaid o chwiaid gwylltion a chwtieir. Sydyn iawn yr ês i o'no pan sylwais bod amryw o fosgitos yn llechu oddimewn i'r guddfan – rhai oedd yn rhy debyg o'r hanner i'r math *Anopheles* brathog! A doeddwn i ddim yn teimlo'n ddigon hael i rannu ngwaed efo'r diawliaid rheiny! Na, y gaeaf a'r gwanwyn fyddai'r adeg orau, a saffa', i ymweld â'r cuddfannau.

Ymlaen a fi wedyn ar hyd ffordd fechan wrth ochr un o'r ffosydd a chlywed swn rhyfedd – plop! plop! …plop! Be oedd yno oedd rhesiad o grwbanod dwr yn neidio oddiar y dorlan i'r dwr. Ac wrth i'r rheiny gynhyrfu'r dyfroedd be gododd o'r hesg ddim ond ychydig lathenni oddwrtha 'i ond clamp o greyr porffor mawr hefo'i goesau melyn llachar.

Roedd y tir yn dechrau codi ryw ychydig bach erbyn hyn a'r afon bellach yn dilyn gwely troellog, mwy naturiol na'r sianelau hirion, sythion oedd yn croesi'r gwastatir yr oeddwn newydd ei adael – mae'n amlwg fod y tir hwnnw wedi ei ennill o gors helaeth ar un adeg. Roedd yn dda gweld a chlywed y dwr yn byrlymu dros gerrig ac yn y pyllau llawn tyfiant oedd yma ag acw ar yr ymylon canfod llyffantod ('llyffantod y pyllau', sy'n wahanol i'n rhai ni) yn crawcian. Roedd amryw o wahanol wesynnod yno a ieir bach yr haf, oedd yn cynnwys y glöyn cynffon wennol mawr lliwgar yn y llecynnau mwy agored. Draw a fi heibio planhigfeydd bychan o orennau â gwrychoedd uchel cysgodol o goed o'u cwmpas. Fe helpais fy hun i un neu ddwy o'r orennau 'ma hefyd – peidiwch a d'eud wrth neb! Ew, roedden nhw'n fendigedig.

Ym mhen pella'r parc mae'r tir yn codi fwy fyth a cheir cyfres o nentydd llethrog yn llawn coed hynafol. Dyma le cyfoethog iawn o ran ei fywyd gwyllt ac amrywiaeth dda iawn o adar oedd yn cynnwys yr euryn, copog, y piod gleision eto a theulu o wybedogion y gwenyn (*Merops apiaster*).



Llun – J Sykes

Gwybedog y gwenyn ar ei hediad

Hawdd gwybod bod y rhain o gwmpas o'u galwad – anghofiwch chi ddim mo'u chwiban grynedig nhw unwaith y'i clywch hi. Roedd gweld haid fechan o'r adar eithriadol o liwgar hyn yn gwibio'n gyflym uwchben y coed yn werth chweil.

Roedd sawl nyth ciconia i'w gweld yn yr ardal hon hefyd oddimewn a thu allan i'r parc ar bennau adeiladau neu ar lwyfannau ar bolion pwrpasol oedd wedi eu codi ar eu cyfer. Maent yn uchel eu parch yn yr ardal – fel y maent ym mhob rhan o Ewrop lle maent yn nythu – am eu bod yn arwydd o lwc dda. Difyr oedd gweld pâr yn nythu ar ben twr uchel yr eglwys yn hen dref Quateira, sy' jyst yr ochr arall i Vilamaura, bob gwanwyn.

**Coedwig y Dderwen Gorc**

Yn 2003, pan oeddem yma dros y Pasg, fe aethom am ddiwrnod o 'Safari' hefo un o'r cwmnîau oedd yn trefnu'r fath beth. I fyny a ni, mewn confoi o ryw 4-5 Rangerover, ar hyd y llwybrau cul, llychlyd a throellog sy'n nodweddu'r bryniau diarffordd, sy' uchydig filltiroedd o'r arfordir ac sy' wedi eu gorchuddio a choedwigoedd y dderwen gorc.

Roeddwn wedi edrych ymlaen at hynny yn arw oherwydd mae hwn yn un o'r cynefinoedd lled-wyllt cyfoethoca yn Ewrop am fywyd gwyllt. A chês i ddim o fy siomi chwaith oherwydd roedd amrywiaeth y blodau gwylltion yn anhygoel ynghyd a ffurfiau ystumiedig y coed derw hynafol, hefo'u rhisgl trwchus crychog oedd yn 'diferyd' o wahanol fathau o gen. Yma ag acw roedd boncyffion y coed wedi cael eu dadrisglo o'r corc gwerthfawr a byddai'r goeden ymhen rhai blynyddoedd wedi tyfu trwch newydd ohono.

Gwaetha'r modd 'doedd dim hanner digon o amser i adarydda a chwilio am bryfid ac yn y blaen. Na dydy dal sbienddrych i'ch llygaid ar gefn peiriant sy'n rhuo mynd ar lonydd bach caregog ddim llawer o gop. Ond, pan arhosom am hoe ar lan afon fe gefais gyfle gwych i ddianc am ychydig a mwynhau cwmni ceiliog eos oedd yn canu nerth esgyrn ei ben yn y gwely cyrs gerllaw.

Mae'r coedwigoedd derw corc bellach dan fygythiad oherwydd yr arfer cynnyddol o ddefnyddio corciau plastig yn hytrach na rhisgl naturiol y dderwen. Corciau plastig? Pa mor gynnaladwy ydy hynny tybed!? Ar ôl gweld gwerth anhygoel y cynefin yma 'dwi'n benderfynol na phrynna'i byth botel win hefo corcyn plastig ynddi eto. A ga'i fod mor hy a gofyn i chwithau beidio gwneud hynny chwaith?

**Y Wennol a Laniodd ar ei Thraed**

Ew mae rhai yn ei chael hi'n hawdd! Mewn adroddiad yn y Dail yr Express, Hydref 22, 2007 roedd hanes am gyw wennol y bondo yn ne Lloegr, o hatshed hwyr yn y flwyddyn, gafodd ei adael ar ôl gan ei rieni ar gychwyn eu hymfudiad tua'r de. Mae'n debyg nad oedd amser i aros i'r cyw bach d'wytha hedfan yn iawn, heb beryglu siawns y teulu cyfan o ddianc rhag y tywydd oedd wedi dechrau dirywio.

Felly, pan ganfyddwyd y cyw bach 3 wythnos oed ar y llawr o dan y nyth gwag a bron a llwgu, fe aethpwyd a fo i un o ganolfannau lleol Wildlife Aid. Ac fel y digwyddodd, roedd un o wirfoddolwyr y ganolfan ar gychwyn, ymhen chydig ddyddiau, am wyliau i dde Portiwgal.

O ganlyniad fe gafodd y deryn bach lwcus lifft, mewn blwch pwrpasol, i Albufeira lle cafodd ei ryddhau. Y gobaith oedd y gallasai gryfhau digon i ymuno hefo'r wennoliaid ymfudol pan gyrhaeddasant yr ardal a gorffen ei daith. Duw a wyr os digwyddodd hynny neu beidio – ond roedd hi'n stori bapur newydd dda yndoedd?

# Cawod o Groesbigau

Dewi Lewis, Clydach

**Yn ôl adroddiadau o sawl ardal yng Nghymru bu gaeaf 2007-2008 yn gyfnod da i weld y croesbig. Ar ddechrau mis tachwedd 2007 cefais gyfle i ymweld â phlanhigfa Brynllefrith yn ardal Felindre, Abertawe. Planhigfa yw hon a blannwyd tua 40 mlynedd yn ôl ac sy'n cynnwys coed perfwydden a llarwydden yn bennaf. Ers diwedd yr haf 2007 bu cryn waith yn digwydd i dorri nifer o goed aeddfed a chlirio tipyn ar y blanhigfa. O ganlyniad mae'n bosibl gweld yr adar a byd natur yn dipyn gwell yno erbyn hyn.**



Llun – Terje Kolaas

'Roedd y diwrnod hwn o Dachwedd yn braf iawn gyda haul yr hydref yn isel yn yr awyr. Fry ymysg canghennau a brigau'r coed 'roedd galwadau a chân adar i'w glywed. 'Roedd y galwadau yn rhai cyfarwydd i mi - 'roeddwn wedi eu clywed ar sawl achlysur yng Nghwm Nedd ac ardal Ystradfellte - ond dyma'r tro cyntaf i mi eu clywed ym Mrynllefrith. Galwadau a chân y croesbig oeddynt - aderyn sydd yn hoff iawn o gynefin sydd yn cynnwys coed pîn. Gan fod y tyfiant ar y canghennau uchaf mor drwchus 'roedd hi'n anodd gweld yr adar ond gyda thipyn o amynedd ac amser fe ddaethant i'r golwg. a llwyddais i gael golwg eitha manwl arnynt gan eu bod yn tueddu i fod yn adar digon diofn. Mae lliwiau'r plu yn rhoi iddynt guddliw effeithiol. Lliw rhuddgoch llachar sydd i'r ceiliog a golyga hyn ei fod yn ymdoddi i'r cefndir, yn enwedig os yw yn bwydo ar foch coed neu yn agos at y brigau neu'r boncyff. Ar y llaw arall, lliw gwyrdd sydd i'r iâr sydd eto yn golygu bod iddi guddliw naturiol ymysg y dail. Wedi i mi anelu'r sbienddrych i gyfeiriad y canghennau llwyddais i weld haid o bump o adar - dau geiliog a thair iâr - ond 'roedd yr holl alwadau yn

awgrymu bod mwy na hynny o adar ymysg y brigau. Diolch i fwncath a hedfanodd yn isel uwchben y coed gan beri dychryn i'r adar llwyddais i gyfri 25 ohonynt. Mewn ychydig o funudau 'roeddynt wedi dychwelyd i'r brigau. Ond hyd yn oed wedi iddynt lanio dim ond chwech o adar a lwyddais i'w gweld a'u chyfri gyda'i gilydd.

Un o nodweddion symudiad tymhorol y croesbig yw'r ffaith bod eu niferoedd yn "ffrwydro" ambell i flwyddyn. Beth mae hyn yn ei olygu yw fod y boblogaeth greiddiol mewn ardal sy'n 'draddodiadol' i'r aderyn yn cyrraedd maint sydd yn ei gwneud hi'n anodd i'r boblogaeth honno gynnal ei hun. Wedi'r cwbl - mae'n rhaid sicrhau cael cyflenwad digonol o fwyd i fedru goroesi. Felly, pan aiff y boblogaeth yn rhy fawr fe fydd heidiau bychain yn "ffrwydro" ymaith ac yn sefydlu mewn ardaloedd eraill. Tybed ai hyn ddaeth a'r gawod yma i Frynllefrith? Efallai bod y boblogaeth yn ardal Cwm Nedd wedi cyrraedd niferoedd oedd yn rhy uchel i'w cynnal yno, a bod yn rhaid gwasgaru i chwilio am fwyd.

Hadau o foch coed yw prif fwyd y croesbig, ond mewn rhai ardaloedd byddant hefyd yn dibynnu ar hadau y berfwydden. Bu'r cnwd yn ystod y gaeaf a aeth heibio yn un da iawn.

Nodwedd amlwg o'r aderyn unigryw hwn yw ei big. Mae iddo big cadarn, sydd, fel yr awgryma'r enw, gyda'r ddau ylfin cam yn croesi'n groes i'w gilydd. Enw arall arno yw'r gylfingroes. Mae'r math yma o big yn arf pwrpasol i gael gafael ar yr hadau allan o'r moch coed.

Fel sawl rhywogaeth arall o adar, fe gysylltir y croesbig â hanes y Croeshoeliad. Yn ôl un chwedl cafodd y croesbig ei big o ganlyniad i dynnu'r hoelion allan o ddwylo a thraed Crist ar y groes. Cymaint oedd ymdrech yr aderyn bach nes y bu i'w big blygu - ac mae wedi aros felly byth ers hynny. Ceir chwedl arall sydd yn egluro lliw rhuddgoch y ceiliog. Credwyd mai gwaed yr Iesu a liwiodd y plu wrth iddo geisio tynnu'r hoelion allan. Hyd heddiw, mewn rhai ardaloedd, fe elwir y croesbig yn Christbird neu Crossbird.

Ar un adeg 'roedd hi'n arferiad cadw'r aderyn mewn cawell yn y ty gan y credid fod iddo rinweddau llesol. Credwyd bod ganddo'r gallu i ddiogelu'r ty rhag tân, y gallu i ddiogelu'r teulu rhag afiechydon megis annwyd a chrydycymalau - tra bod yfed dwr o'r un piser a chroesbig yn foddion i wella epilepsi.

Beth bynnag am ei rinweddau yn y gorffenol tybed a wnaethoch chwithau sylwi bod cawod groesbig wedi disgyn yn eich hardal chi yn ystod y gaeaf diwethaf?



Llun – Terje Kolaas

# Taith -Llynnoedd a choetiroedd uwchben Llandecwyn

Huw Dafydd Jones

**Ar fore Sadwrn y 19eg Ionawr, dan arweiniad Twm Elias daeth nifer o aelodau ynghyd ar lan Llyn Tecwyn Isaf, ger Talsarnau, gyda'r bwriad o ymweld â llynnoedd Tecwyn, Isaf ac Uchaf, a'r coetiroedd uwchben Llandecwyn.**



Ymgynnull ar lan Llyn Tecwyn Isaf. Llun HDJ

Er fod tywydd llwyd a gwlyb y diwrnod wedi cadw ambell aelod rhag dod ar y daith, mae'n sicr na siomwyd y rhai a fentrodd gydag amrywiaeth yr hyn a welwyd, yn adar ac yn anifeiliaid. Hyd yn oed cyn cychwyn, yn y prysgwydd ar lan y llyn gwelwyd nifer o'r adar bach cyffredin megis y robin, y fwyalchen, titw mawr, titw tomos las a'r ji-binc, ac hefyd dau aderyn llai cyffredin, sef y titw gynffon hir a dryw eurben. Gan fod niwlen a glaw man dros wyneb y llyn 'roedd yn anodd gweld yr adar oedd yn nofio ar y llyn yn glir. 'Doedd dim amheuaeth i ni weld hwyaid gwylltion a bilidowcar ac wedi cyfeirio at wahanol lyfrau adar a thrafod, penderfynwyd mai gwyach fach oedd un a welwyd yn sglefrio dros wyneb y dwr. Uwch ein pennau gwelwyd hanner dwsin o gor-hwyaid yn hedfan tua'r môr, a boncath yn troelli yn yr awyr laith.

Wrth droi ein cefnau ar y llyn i ddringo drwy'r coed bu un neu ddau yn ddigon craff i sylwi ar ddringwr bach yn troelli wrth ddringo o amgylch boncyff. Aros am ychydig wedyn i wylio haid o tua pymtheg titw cynffon hir yn pigo cynhaliaeth ym mrigau bedwen. Cyn mynd ymhellach tynnwyd ein sylw gan aderyn bychan unigol ar frig cangen yn canu *'pi-pi-pi-pi-pi'*.



Hedfanodd dros ein pennau a glanio yn y goeden lle bu'r titw cynffon hir cyn hynny.



Drwy'n spienddrychau gwelsom ben coch a chorff du a gwyn yr aderyn bychan hwn o faint aderyn y to. Heb os, cnocell fraith leiaf oedd hwn. Mae'n aderyn prin iawn ac yn

un anodd i'w weld yn ei gynefin ym mrigau ucha'r coed.



Welsoch chi'r llwynog 'na hogia?

Erbyn hyn 'roedd pawb yn barod i fynd adref yn hapus! Ond ymlaen a ni gan ddringo drwy'r coed heibio i Blas Llandecwyn i gyfeiriad llyn Tecwyn Uchaf. Bu Twm ac un neu ddau oedd ar flaen y gad yn ddigon ffodus i gael cip ar Sion blewyn coch, - ei lwybr yn croesi ein llwybr ni. Ni safodd hwn yn syfrdan uwchlaw ei untroed oediog, dim ond diflannu i'r prysgwydd. Dwy fronfraith , tri corehedydd y waun a brain tyddyn welwyd cyn cyrraedd man uchaf y daith. Petai'r tywydd yn well byddai golygfa fendigedig o aber y Ddwyryd gyda chastell Harlech ar y naill law a phen Llyn ar y llall. Aros wrth fedd Dorti'r wrach ar lan y llyn, a gosod carreg wen ar ei bedd i sicrhau ein bod yn cael taith ddi-dramgwydd ar hyd llwybr min y llyn! Clywyd crawc cigfran yn y creigiau uwchben y llyn cyn i ni ei gweld, drwy'r cwmwl, yn dilyn ei thrywydd. Digon llwm oedd nifer yr adar o amgylch y llyn a chofnodwyd dim ond dwy hwyaden wyllt a dryw bach. Manteiswyd ar gysgod coed pîn i fwyta'n cinio, ac



Piti na fasa hi'n braf



unwaith eto digon prin oedd yr adar, dim ond ambell i aderyn du ac ysguthan y tro hwn. Gadael cysgod y coed pîn ac ymuno â'r ffordd a ddychwelai at y llyn a gweld tri delor y cnau, tair tresglen (bronfraith fawr) ac unwaith eto, chwe titw cynffon hir a dau dryw eurben. 'Roedd rhan olaf y daith yn dringo'n ôl drwy'r coed derw i uno â'r llwybr y buom arno y bore hwnnw. Tynnwyd ein sylw at y coed derw digoes yn gwasgu cynhaliaeth o'r creigiau a'r haenau tenau o bridd. Mae'r llun yn dangos pa mor llwm yw'r tirlun a pha mor barhaol hen yw'r coedydd hyn.



Do, bu hon eto'n daith ddiddorol a llwyddiannus o ystyried bod dros ugain o rywogaethau wedi eu gweld, ond 'roedd rhagor i ddod! Golygfa fythgofiadwy wrth ddisgyn drwy'r coed yn ôl at y ceir ar lan y llyn oedd gweld tri dyfrgi yn chwarae yn nwr y llyn. Diweddglo cyffrous ac uchafbwynt ddiymwad i'r daith.

# Adar Anlwcus

Rhodri Dafydd

**Bydd y rhai ofergoelus ohonoch eisoes wedi sylwi ein bod wedi cyrraedd rhifyn 13 o Llygad Barcud. Rhif anlwcus ebe rhai – felly beth am fynd ati i edrych ar rai adar sy'n cael eu cysylltu gydag anlwc!**

Y lle amlwg i ddechrau yw gyda'r dylluan. Gan i hon fod yn aderyn dirgel a chudd, aderyn y nos oedd yn byw y tu hwnt i lygaid dyn am amser hir, peth hollol naturiol efallai oedd hi iddi gael ei chysylltu gyda thywyllwch, dirgelwch, anffawd – a marwolaeth. Mae rhai o gredoau cynnar y Maya yn Ne America yn ymwneud a chysylltiad y dylluan yn hwtian o dywyllwch y goedwig fel arwydd o ddrwg oedd ar ddod – gelwid yr aderyn yn *Mo lin* – 'aderyn marwolaeth' ac roedd gan Dduw marwolaeth y Maya, Yum Cimil, dylluan fel anifail anwes!

Ceir atseiniau o hyn ym mhedwar ban byd, ar bob cyfandir bron, a bron ymhob diwylliant.

Dyna i chi enw'r dylluan yng Ngwlad yr iâ er enghraifft – *ugla* – na, nid cyfeirio at olwg yr aderyn mae hyn (er fod tebygrwydd a chysylltiad gyda'r gair 'ugly') ond yn hytrach 'dychrynllyd' yw ei wir ystyr.

Ceir amryw o gredoau fod y dylluan yn aderyn drwg yn yr Affrig hyd heddiw – dangosodd arolwg diweddar fod 80% o bobl Malawi a holwyd yn credu fod y dylluan yn aderyn dieflig, ac mewn nifer o wledydd yng ngorllewin y cyfandir adnabyddir y dylluan fel 'aderyn y wrach'. Ymysg llwythau brodorion gogledd America cysylltid y dylluan eto a marwolaeth a drygioni. Yr oedd hyd yn oed y genedl honno sy'n enwog am eu dewrder - yr Apache - yn ystyried mai'r dylluan oedd y mwyaf dychrynllyd o holl greaduriaid y byd.



Llun - S. G. Goodrich
*Animal Kingdom Illustrated Vol 2* (New York: Derby & Jackson, 1859

Mae'r ddelwedd yn gyson – yn Rwsia, Armenia, yr Wcrain a nifer o wledydd eraill dwyrain Ewrop cysylltid yr aderyn a'r diafol, a chredid eto fod ganddi'r gallu i ddarogan marwolaeth, fel ag a goelid yn India, Nepal, Burma, ymysg y Maori yn Seland Newydd ac ymysg Aborigines Awstralia.

A gorllewin Ewrop? Wel, mae'r un peth yn wir yma wrth gwrs – ceir llen gwerin ymhob gwlad bron yn dweud fod yr aderyn – a chri'r dylluan yn arbennig - yn darogan marwolaeth.

Bu'r un peth yn wir yng Nghymru – ac mae'n dal i fodoli hyd heddiw! Wel y dylluan druan!

A dyna i chi deulu'r fran – os bu teulu ag enw drwg erioed, wel dyma nhw! Cysylltir bron bob rhywogaeth o deulu'r fran ag anlwc ac anffawd!

Dyna i chi'r bioden i ddechrau. Gwyr pawb fod gweld un o'r rhain ar ei phen ei hun yn anffodus dros ben (ond yn lwcus os gwelwch ddwy fodd bynnag!), fel y mae gweld un fran yn hedfan heibio hefyd yn anlwcus.

Felly, os gwelwch chi un bioden unig yn croesi o'ch blaen cofiwch bod achubiaeth os fedrwch daflu'r lwc ddrwg yn ôl ati – drwy sefyll yn stond yn eich hunfan, gwneud croes ar y llawr â'ch troed, yna poeri ac adrodd y bennill fach hon –
*Piogen wen, piogen ddu;*
*Lwc i mi! ptw!* (h.y. poeri eto!)
Cofiwch wneud hynny y tro nesa y gwelwch chi un bioden rwan – neu difaru wnewch chi!



Llun - Chandler B. Beach,
*The New Student's Reference Work for Teachers Students and Families* (Chicago: F. E. Compton and Company, 1909)

Ond yn aml iawn, nid y brain neu'r piod eu hunain sy'n achosi'r lwc ddrwg – ond yn hytrach weithredu yn eu herbyn – dyma sydd yn dod a phob math o drafferth am ben dyn! Dyna i chi ladd brain sy'n nythu gerllaw'r ty er enghraifft – ddaw dim ond drwg i ddilyn hynny! A chwalu nyth bran? Wel ys dywed yr hen rigwm o Adpar, Castell Newydd Emlyn -
*'Os torrwch chi nyth y fran*
*Fe gewch ddigon o Bôn a stran!'*

Yn wir, bydd chwalu nyth nifer o wahanol adar yn dod a lwc ddrwg yn ei sgil – ceir yn Llyfr Hwiangerddi'r Dref Wen saith o benillion yn rhestru'r adar –

*Y sawl a dynno nyth y dryw,*
*Ni wel ddaioni tra bo byw.*

*Y sawl a dynno nyth ehedydd*
*Gyll oddi ar ei ben ei fedydd.*

*Y sawl a dynno nyth y wennol,*
*Ni chaiff fwyniant yn dragwyddol.*

*Y sawl a dynno nyth y fran,*
*Fe gaiff fynd i uffern dan.*

*Y sawl a doro nyth y binc*
*Gaiff ei grogi wrth y linc.*

*Y sawl a doro nyth pioden*
*Gaiff ei hongian wrth y goeden.*

*Y sawl a dynno nyth y Robin,*
*Gaiff ei hongian wrth y cordyn.*

Ond hyd yn oed pe na baech yn malurio nyth bran - pe byddai'r brain yn dewis symud ar eu liwt eu hunain, a hwythau wedi bod yn nythu yn ymyl y ty ers blynyddoedd, wel gwae chi – byddai hyn yn dod ag anfri a digalondid mawr i drigolion y ty hwnnw.

Bydd dyfodiad y gog yn rhywbeth y bydd llawer ohonom yn edrych ymlaen ato bob blwyddyn. Erbyn hyn, mae gennym syniad go dda i ble y bydd yr aderyn hwn yn mynd i dreulio misoedd oer y gaeaf. Ond erstalwm wrth gwrs, roedd ei diflaniad disymwth bob canol haf yn ddirgelwch. Esgorodd hyn ar gred mewn nifer o ardaloedd fod yr aderyn yn diflannu i Annwn dros y misoedd llwm. Yn ucheldiroedd yr Alban un enw ar yr aderyn oedd *'eun sidhe'* - 'aderyn y twmpathau' – gan y credid gynt y byddai'n diflannu o dan y ddaear. Yn agosach at adref, yn sir Gaerfyrddin credid y bydda'i gog yn diflannu i le dirgel ac yn hongian gerfydd ei phig gydol y gaeaf. Yma yng Nghymru wrth gwrs bydd yn ddigwyddiad ffodus os clywch gwcw gynta'r flwyddyn a'ch pocedi yn llawn arian – mae hyn yn arwydd o flwyddyn doreithiog a llwyddiannus dros ben. Ond – petae'ch pocedi yn wag a'ch cownt yn y banc yn edrych yn o dila, wel felly bydd hi am flwyddyn gron (och, gwae fi!) Yn yr Iwerddon a'r Alban ystyrid hi'n hynod anlwcus i glywed yr aderyn yn canu am y tro cyntaf yn gynnar yn y bore, hynny ydy cyn i chi gael brecwast – gan y byddai hynny'n arwydd sicr y byddai cyflwr eich bol y bore hwnnw yn parhau yn wag ac yn llwglyd! Ie, blwyddyn newynog fyddai hi.

Bydd babis gaiff eu geni ar y diwrnod y clywir y gog gyntaf yn cael bywyd lwcus. Ac os ydach chi ar y ty bach ar y pryd – mae hi wedi c....canu arnoch chi!

Gall adar dof fod yn anffodus hefyd -
*'Na chad o gylch dy dy*
*Gath wen na cheiliog du'*
meddai'r hen ddywediad ynte?



Llun - S. G. Goodrich *Animal Kingdom Illustrated Vol 2* (New York: Derby & Jackson, 1859)

Ie, y ceiliog. Dyna un arall anlwcus. Pe digwydd i chi glywed yr hen geiliog (waeth pa liw y byddo!) yn canu ganol nos – dyma'i ffordd o ragfynegi marwolaeth rhywun yn y gymuned. A phe byddech ar ben hynny yn ddigon anffodus i weld y cr'adur yn canu, wel dim ond gobeithio ei fod yn edrych i ffwrdd – gan fod pig y ceiliog bob amser yn anelu tuag at dy yr hwn (neu'r hon) sydd ar fin marw.

Ceir llawer o hanesion yn y gwledydd Celtaidd am adar arallfydol a fyddai'n dod ag anlwc i unrhyw un a'u gwelai neu a'u clywai. Yr enwocaf o'r rhain yng Nghymru heb os yw'r Aderyn Corff – ceir straeon di-ri am hwn ymhob cwr o'r wlad. Does yr un aderyn yn fwy dychrynllyd ac anlwcus na hwn! Ys dywed Evan Isaac yn *'Coelion Cymru'* (1938) –

*'Credid yn gryf gynt yn y "'Deryn Corff"... nid oes wybodaeth glir a phendant am yr aderyn hwn. Gwisgir ef a thywyllwch anhreiddiadwy, cyffelyb i'r tywyllwch a wisg yr hyn y proffwyda amdano. Y dybiaeth gyffredin yw, ei fod yn ddu ei liw ac o faintioli bronfraith, a'i lygaid mawr yn*

*saethu allan belydrau treiddiol a'u ias fel ia...credid gynt mewn rhai ardaloedd mai aderyn drudwy ydoedd. Clywais ei alw hefyd yn dylluan frech. Eithr pa enw bynnag a roddir iddo, meddylir amdano fel peth annaearol a ofnir hyd dychryn.'*

Byddai clywed hwn ar y to, ar y simne, neu'n waeth byth yn taro ar y ffenestr gyda'r nos (yn enwedig pe byddai claf yn y ty) yn argoeli'n hynod ddrwg.

Geilw rhai hyd heddiw y dylluan wen yn aderyn corff – rhai eraill y dylluan frech. Pwy a wyr.

Yn yr Alban ceir hanesion am aderyn o'r enw y 'boobrie'. Mae'n debyg fod hwn yn ymdebygu i drochydd mawr, a byddai'n mynychu'r un math o gynefin, sef corsydd â llynnoedd (neu'r 'lochans') bychain o ddwr blith drafflith drwyddynt draw. Roedd hwn yn aderyn wir ddychrynllyd, gyda'i wddf hir, pig creulon (â bachyn mileinig ar ei ben), a thraed a oedd, er yn debyg i rai hwyaden, yn llawer iawn mwy (dywed rhai y gallent fod mor fawr a chyrn carw) ac roedd gan y rhain eto grafangau mawrion ar bob bys! Byddai'r boobrie yn aderyn hynod anlwcus, yn enwedig i ffermwyr gan y byddai'n llarpio defaid a gwartheg ar nosweithiau tywyll, du – a gwae unrhyw un a'i gwelai, neu a glywai ei sgrechiadau wylofus, neu ei waedd oedd yn cymharu a swn tarw yn rhuo! Dim ond anlwc a ddeuai o glywed ei swn!

Wyddoch chi be? O ddechrau ymchwilio, mae yna nifer dirifedi o hanesion ac ofergoelion (os mai dyna ydyn nhw?!) am adar anlwcus – llawer gormod i'w rhestru yma. Oes gennych chi hanesion sy'n unigryw i'ch hardal chi? Byddwn yn falch iawn o'u clywed – pam na sgwennwch nhw a'u danfon i Llygad Barcud?

Ond cyn i chi feddwl mai pethau ofnadwy ydy adar – mae na gymaint (os nad mwy!) o straeon am adar lwcus – a chawn olwg ar rai o'r rhain yn y rhifyn nesaf o Llygad Barcud! Tan tro nesa – byddwch yn ofalus – a chofiwch be i'w wneud pan welwch yr hen bioden 'na!

PETH PERYG' I 'NEUD – PIGO AR GRËYR GLAS!

'Dan ni i gyd yn ymwybodol o faint a siap pig crëyr glas ond a ydych wedi meddwl pa mor beryglus y gallai fod? Deuthum ar draws yr hanesyn yma yn "*Illustrative Anecdotes of Birds, Fishes and Insects*" gan Captain Thomas Brown yn ystod yr 1800au:

*"The power of the heron was lately manifested in a remarkable manner. A gentleman belonging to the parish of Bothwell, being on a shooting excursion, accompanied by a small spaniel observed a heron wading a little above a waterfall. He fired - wounded it - and sent his dog into the stream to bring it to land. As soon as the dog had come within its reach, the heron drew back its head, and then with all its force, struck him in the ribs with its bill. The gentleman fired, and killed the heron; but it had well revenged itself: the dog and it floated dead together, down the foaming waterfall"*

Derbyniwyd y pwt difyr hwn gan Dewi Lewis Clydach – roedd y creyr yn anlwcus iawn i'r ci hwn a'i berchennog!

# Taith – Natur y Cob, Chwefror 23ain, 2008

[ar y cyd â Chymdeithas Edward Llwyd]

dan arweiniad Twm Elias

**Ar y dyddiad yma 28 mlynedd yn ôl, y cynhaliwyd y daith gynta i'w threfnu gan, beth oedd hynny, yn gangen y gogledd o Gymdeithas Edward Llwyd. Roedd hynny'n hen ddigon o esgus i ail gynnal y daith wreiddiol eleni – wel, rhan Porthmadog ohoni o leia oherwydd yn y cyfarfod gwreiddiol fe gychwynwyd yn Port cyn symud ymlaen i Fochras i orffen y diwrnod.**

Mae yna adroddiad am y daith honno yn *Y Naturiaethwr* 4 (1980), tud. 7. Deunaw o bobl droiodd allan ar Cwefror 23ain 1980 ac, yn ddifyr iawn, dyna oedd y nifer yn 2008 hefyd er, mae'n rhaid dweud inni golli eu hanner nhw amser cinio! Ond dwi ddim yn gweld bai ar neb am hynny chwaith am fod y tywydd yn ddiawledig a bod y gêm rygbi rhwng Cymru a'r Eidal yn cychwyn am 2.30! Fe fuaswn wedi dianc fy hun onibai mai fi oedd yn arwain! Ond, fel y digwyddodd hi, fe gafwyd taith ddifyr iawn hefo rhyw dri ohonom yn 'feterans' o'r tro cynta.

Yn adroddiad y daith gynta fe soniwyd am 'Charlie' – gwydd Canada oedd wedi ymgartrefu yn yr ardal, a'i fod: "*...yn gyfeillgar hefo gwydd wen Gymreig. Mwy na chyfeillgar, oherwydd 'roedd cyw gwydd brith blwydd oed nepell oddiwrthynt!*" Hm! Fyddai'r hen Charlie ddim mor unig y dyddiau yma – mae'r gwyddau Canada wedi mynd yn dipyn o bla ar y Morfa erbyn hyn.

Draw a ni o'n man cychwyn ger Recordiau'r Cob am y Cob Crwn gan sylwi, wrth groesi'r giatiau llanw, pa mor uchel oedd y dwr ar ochr yr harbwr. Yn 1980 fe gofnodwyd 8 gwyach bach a bili dowcar "*hefo'i adenydd ar led i 'sychu ei ddillad'*" yma. Y tro hwn rhyw 2 – 3 gwyach bach ac un bili dowcar eto – ond doedd hwn ddim yn trafferthu i ddal ei adenydd ar led chwaith yn y gwynt a'r glaw.



Llun - RSPB

Yr unig rydyddion gofnodwyd yn 1980 oedd gylfinir, pibyddion coesgoch a phiod môr. Ond fe gawsom well hwyl arni y tro hwn drwy fedru ychwanegu haid fechan o 6 rhostog cynffonddu at ein rhestr.

Roedd y rhestr chwiaid yn reit debyg – chwiaid brongoch, chwiaid eithin, chwiwell, cor-hwyaid a nifer fach o chwiaid gwylltion cyffredin. Yr unig wahaniaeth oedd bod chwaden bengoch wedi ei gweld yma yn 1980.

Wrth inni fynd rownd y Cob Crwn, oedd yn llawn dwr, dyma geisio dal sylw ar y gwylanod drwy wydrau oedd yn wlyb socian hefo'r glaw mân diderfyn erbyn hyn. Dim ond y benwaig, y benddu a'r gefnddu leiaf gofnodwyd y tro cynta ond y tro yma dyma ychwanegu pâr o'r gefnddu y fwya …a rhywbeth arall hefyd… Ia, tybed be ydy honna sy'n nofio'n fan'cw ynghanol yr haid o tua 60 o wylanod penddu? Mae'n talu bob tro i sganio'n fanwl drwy bob haid o pa bynnag adar welwch chi – jyst rhag ofn bod 'na rwbath sy ddim cweit yr un peth â'r lleill…

Ac yn wir i chi roedd un o'r 'gwylanod penddu' 'ma 'mbach yn wahanol – 'mbach bach yn fwy efallai? A'r pig ychydig yn braffach ac yn ddu ar ei flaen. Allan a'r llyfr yn syth, a sylwi wedyn bod blaenau ei hadenydd a'i chynffon yn wyn, nid yn ddu fel y gwylanod eraill. Doedd dim amheuaeth bellach – gwylan Môr y Canoldir oedd hi. **Haleliwia!**



Llun – Huw Dafydd Jones

**Yr wylan Môr y Canoldir yn y canol – sylwch bod blaen yr adain yn wyn yn hytrach na du fel yn y gwylanod penddu.**

Pawb yn cael golwg arni drwy'r telesgôp ac yn hapus iawn fod diwrnod mor giami o ran tywydd wedi troi allan mor wych yn adaryddol. Fe gododd y gwylanod toc ac fe gawsom ei gweld yn hedfan – a gweld yn gliriach, wrth iddi droelli, y gynffon wen a'r adenydd blaenau gwynion. Fel arall mae'r wylan hon yn debyg iawn i'r benddu. Roedd ei phen hi wedi duo bron yn llwyr o gymharu â'r gweddill – dim ond rhyw un neu ddwy o'r gwylanod eraill oedd â phennau duon cyflawn.

Wedi inni gyrraedd yn ôl i'r stryd fawr, penderfynu ei bod yn rhy wyntog fynd ar hyd y Cob, felly am Borth y Gest a ni, wel, yr hanner o'r criw oedd am fentro, hynny yw.

Felly rownd yr harbwr a ni a heibio cefnau'r iardiau cychod a sylwi ar haid o ryw hanner dwsin o greyrod gwyn yn clwydo yn y coed ar ochor gysgodol Ynys Balast. Mae y rhain yn hen gyfarwydd inni erbyn hyn, tra yn 1980 fe fuasai bobol wedi dwad o bob man i'w gweld nhw am eu bod yn bethau prin iawn iawn bryd hynny.

Cyrraedd Borth y Gest â'r llanw yn dechrau gwagio o'r traeth. Haid o ryw hanner cant o bibyddion yr aber yn ogystal â'r piod môr a choesgochiaid arferol ac un glyfinir yn y gwair ar yr ymyl. Cael cinio yng nghysgod y lloches dywydd yn y maes parcio a wedyn dychwelyd dros y top, heibio'r hen ysbyty i Port. Neb am gael hufen iâr Cadwalader chwaith fel a addawyd yn yr hysbys am y daith ar Galwad Cynnar, Radio Cymru y bora hwnnw, ond am ei phrysuro hi am adra i wylio'r rygbi, tra bod Anwen am y siopau m'wn! Diwrnod da a chofiadwy iawn, a Chymru'n ennill hefyd. Hwre!

## Gweithgareddau Cymdeithas Ted Breeze Jones

Dydd Sadwrn Ebrill 26ain
**Diwrnod hyfforddiant ar gyfer yr Atlas: Plas Tan y Bwlch, 2.00pm.**
Dilynir gan sesiwn yn y maes ar y 27ain. Trefnwyd gan y BTO a Pharc Cenedlaethol Eryri

Dydd Sadwrn 10fed Mai 2008
**Taith Adarydda Cymdeithas Edward Llwyd - Niwbwrch.**
Dan arweiniad Rhys Jones.
Cyfarfod ym maes parcio'r Warchodfa, am 10.30 y.b.

Dydd Sul 25ain Mai 2008
**Cwm Ystradllyn**
Dan arweiniad Tom Jones
Cyfarfod ger y llyn am 10.00 y.b. – a cofiwch mai bora dy' Sul fydd hwn!

Dydd Sadwrn 14eg Mehefin 2008
**Taith cwch ar Lyn Trawsfynydd**
Dan arweiniad Twm Elias. Bydd costo £5.00 y pen am y daith
Cyfarfod ym maes parcio'r ganolfan ddehongli sy' ger yr Atomfa, am 10.30 y.b.

Dydd Sadwrn 28ain Mehefin 2008
**Ynys Lawd**
Dan arweiniad Tomos Jones. Cyfarfod ym maes parcio'r RSPB, Mynydd Twr am 10.30 y.b.

Yn ogystal bydd **Cymdeithas Adar y Cambrian** yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau. Cysylltwch â Rhion Pritchard (01248 601 232) am fwy o fanylion.
Dyma rai o'r gweithgareddau sydd ar eu rhaglen –

Nos Wener Mai 2il 2008
**Adar dwr a gloynnod byw Cymru** – Arfon Thomas
Darlith yng Nghanolfan Pensychnant, Conwy, i ddechrau am 7.30 y.h.

Dydd Mercher, Mehefin 11eg
**Cyfarfod gwylio, dal a modrwyo adar**
Parc Dudley, Waunfawr

Dydd Sadwrn 16eg Awst 2008
**Taith fws i 'Bird Fair', Rutland Water**
Cymdeithas Adar y Cambrian sy'n trefnu'r daith hon -
Pris y daith yw £11 y person – rhesymol iawn!


*Plas Tan y Bwlch*

*Canolfan Astudio Parc Cenedlaethol Eryri*

Pob llwyddiant i

**Gymdeithas Ted Breeze Jones**

ac i

**LLYGAD BARCUD**

Holwch am raglen o'r cyrsiau byd natur yr ydym yn eu cynnig,
neu am ein darpariaeth i grwpiau / cymdeithasau ymweld gyda'r nos am bryd bwyd,
a thro rownd y gerddi

Am ragor o wybodaeth a rhaglen lawn ffoniwch: 01766 772600